

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd  
COFNODION MEHEFIN  
5 Mehefin 2014 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

**PRESENNOL :**

Cynghorwyr Sioned Williams, Dafydd Iwan, Ian Jones, Chris Hughes, Geraint R. Jones, Emyr Williams, Edd Huws, Ifor D. Williams  
Cadeirio: Erddyn Davies  
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

**Materion:**

**Cyflwr y ffordd Llanfaglan i'r Bontnewydd a'r Lôn Groes**

Bu peirianwyr Gwynedd yn edrych ar gyflwr y ffyrdd yn ardal Llanfaglan yn ddiweddar. Nodwyd nad oedd diffygion dosbarth 1 ar y ddwy lôn, ond fe nodwyd ardaloedd ble mae'r ffyrdd yn cracio ac yn datblygu rychau, a fydd angen sylw yn y tymor hir. O ran problem y lôn yn cwmpo ger Porthordy Llanfaglan, mae Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r fan yn benodol, ac yn bwriadu atgyweirio'r diffyg yma'n fuan.

**Porth Eglwys Sant Baglan**

Gan mai cyfrifoldeb Cyngor Cymuned Y Bontnewydd yw atgyweirio Porth Eglwys Sant Baglan, fe gytunwyd gofyn am bris i wneud y gwaith gan grefftwyr ag arbenigedd penodol, ac fe gytunwyd i'r Clerc ymchwilio i'r mater.

**Cylchdro Glan Beuno**

Gohebdd y Clerc unwaith eto â Chyngor Gwynedd a'r Asiantaeth Priffyrdd, gan awgrymu gwelliannau i wella diogelwch ar y groesfan, a disgwylir ymateb. Mae'r Clerc hefyd yn disgwyl ateb gan Lywodraeth Cymru o ran gwneud gwaith i liniaru'r traffig i'r gogledd o'r cylchdro.

Penderfynwyd mai'r cam nesaf fyddai i'r Clerc ysgrifennu at yr Asiantaeth Priffyrdd er mwyn gofyn am gyfarfod safle.

**Enwau ffyrdd**

Cytunwyd y dylid ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn eu hatgoffa mai'r enwau a ddylid eu defnyddio ar gyfer ffyrdd yn Llanfaglan yw: Lôn Morfa, Lôn Sling, Groeslon 'Refail a Ffordd Rhos Llanfaglan.

Yng nghyd-destun diogelu enwau llefydd, cafwyd cais gan Mynyddoedd i Bawb i'w cefnogi yn eu hymdrech i ddiogelu enwau llefydd Cymraeg a chytunwyd cefnogi eu cais.

### **Maes Chwarae Llwyn Beuno**

Awgrymodd Cyngor Gwynedd mai cyfarfod safle fyddai'r ffordd orau i ddelio efo'r mater yma, cyn ystyried opsiynau posibl megis cymryd prydles o'r maes chwarae. Y pryder yw bod yna oblygiadau os cymerir prydles, ac os yw'r offer mewn cyflwr sâl, yna mae'r oblygiadau yn cynyddu.

### **Defnyddio Maes Parcio CPD Bontnewydd**

Disgwylir ateb gan Gyngor Gwynedd ar eu barn o ran gadael i ddefnyddwyr Parc Coed Sipsiwn ddefnyddio Maes Parcio Clwb Pêl-droed Bontnewydd oherwydd oblygiadau posibl diogelwch a chynllunio

### **Enw ar Res Libanus**

Disgwylir derbyn barn y trigolion lleol ai Rhes neu Deras Libanus ddylai'r enw fod cyn cysylltu â Chyngor Gwynedd.

### **Holiadur yr angen am dai**

Trafodwyd holiadur a gylchredwyd gan y Cynghorydd Dafydd Iwan, a'r bwriad i'w ddefnyddio i asesu'r angen am dai yn lleol. Penderfynwyd fod angen symleiddio ac addasu'r holiadur, fel nad oedd yn gofyn am gymaint o fanylion personol, gan obeithio am well ymateb. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Dafydd Iwan yn addasu'r holiadur a'i ddanfôn ar e-bost gan holi hefyd sut hwyl yr oedd Cyngor Cymuned Llanllyfni wedi ei gael parthed eu holiadur hwy.

### **Cynllunio**

Nid oedd gwrthwynebiad i gais C14/0463/19/LL 2, Glan Llyn, Llanfaglan, i godi estyniad at gefn y tŷ a modurdy newydd.

### **Gwreiddyn coeden pont reilffordd y Bontnewydd**

Amlygwyd fod gwreiddyn coeden yn tyfu mewn ffordd ei fod yn effeithio ar gyflwr pont reilffordd y Bontnewydd. Credir mai Cyngor Gwynedd sydd berchen y bont/Lôn Eifion, ond bod les i Reilffordd Eryri. Y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd.

### **Gosod y cae y tu ôl i Barc y Plwyf Llanfaglan**

Cafwyd dau ymgeisydd oedd am rentu y cae tu ôl i Barc y Plwyf. Penderfynwyd gosod y tir i'r ymgeisydd oedd yn fodlon gwneud gwaith angenrheidiol i sicrhau fod y cae yn ddiogel i'w osod, a hynny ar gytundeb 5 mlynedd.